yn rhoi cartref i fyd natur

Gwrando ar gân yr adar

Dyma sut galli di adnabod a chofio cân chwe aderyn sy'n canu o dy gwmpas yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf. Cer i wefan RSPB i'w clywed nhw'n canu. Teipia "RSPB" ac enw'r aderyn yn Google.

1 Titw mawr

Mae'r aderyn yn canu nodyn isel a nodyn uchel ar ôl ei gilydd, fel corn clown.

2 Siff-siaff

Aderyn bach iawn yw hwn ond mae wedi ymfudo yma'r holl ffordd o Affrica. Galli di ei glywed yn y coed a'r gwrychoedd yn canu cymysgedd ar hap o "siff" a "siaff".

3 Robin goch

Gall y robin goch yn yr ardd chwibanu'n uwch na ni. Mae ei chwibanu'n codi ar ddiwedd y gân, fel pe bai'n gofyn cwestiwn.

4 Aderyn du

Cân yr aderyn du yw'r un fwyaf tebyg i alaw go iawn. Mae rhai pobl yn dweud ei bod yn swnio fel ffliwt. Galli di ei chlywed yn ystod y wawr a'r gwyll.

5 Turtur dorchog

Gwranda am y gân tri nodyn – "cw-cŵ-cw"

6 Colomen wyllt

Mae'r gân yn debyg iawn i gân y durtur dorchog, ond mae pum nodyn bob tro - "cw-cŵ-cw, cwcw"

Gweithgaredd

Ysgrifenna atom i **ddweud wrthym ni** am yr adar rwyt ti wedi'u clywed yn canu.

Tri 'cw' neu bump 'cw'?

Gweithgareddau Gwyllt!

www.rspb.org.uk/wildchallenge

Cofrestra i ennill gwobrau!

Mae RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 207076, ac yn yr Alban SC037654. 382-1139-18-19. Titw mawr gan Mark Hamblin, siff-siaff gan Mike Lane, robin goch gan David Tipling, aderyn du gan Richard Revels, turtur dorchog gan Ed Marshall a cholomen wyllt gan Ray Kennedy a David Kjaer (pob un yn rspb-images.com), buwch goch gota, esgidiau glaw a phridd gan iStockphoto.com.